

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 1 HYDREF 2026 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Jenny Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Janet Knott, Meinir James, Elfyn Williams, Shan Rees, Cyngorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Cyng Rheinalt Jones, Viv Davies, Eifion Jones a Nicola Jones.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3^{ydd} Medi 2026.

5. Materion yn Codi

- 1. Green Gen** – Derbyniwyd diweddariadau pellach ar y prosiect gyda chadarnhad y byddai rownd ymgynghori bellach yn cael ei chynnal ar 24^{ain} Hydref 2026. Nodwyd.
- 2. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Derbyniwyd cadarnhad bod yr apêl yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio wedi'i gwrthod ar 17^{eg} Medi 2026 gyda'r dyddiad cau bellach ar gyfer cydymffurfio â'r Hysbysiad Gorfodi yn 17^{eg} Rhagfyr 2026. Nodwyd.
- 3. Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel** – Roedd disgwyl rhagor o wybodaeth am weithredu'r gorchymyn traffig dim goddiweddyd. Nodwyd.
- 4. PL/09369 - 1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 5. Maesglasnant, Cwmffrwd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 6. Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog** – Derbyniwyd cadarnhad bod Tîm Gorfodi'r Cyngor Sir wedi nodi, gan fod y Carafán ar y safle bellach wedi'i symud, fod cydymffurfiaeth rhannol â gofynion yr hysbysiad wedi delio â'r elfennau o'r toriad y barnwyd bod camau gorfodi yn briodol ar eu cyfer. Yn unol â hynny, ni ystyriwyd ei bod yn briodol cymryd camau pellach, a byddai'r achos yn cael ei gau. Nodwyd. Bydd y mater yn parhau i gael ei adolygu.
- 7. PL/10552 - Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin** – Nodwyd bod y cynnod ar gyfer darparu sylwadau ar y cais wedi'i ddiweddarw wedi'i ymestyn i 7^{fed} Hydref 2026. Roedd sylwadau ychwanegol ar y cais wedi'u drafftio gan y Cyngorydd Nicola Jones a byddent yn cael eu hychwanegu at sylwadau blaenorol y Cyngor Cymuned ar y cais.

8. **Prosiect Is-orsaf NGED** – Roedd y Cyngor yn aros am gadarnhad o ddyddiad ymweliad ag Is-orsaf Morriston. Nodwyd.
9. **Gwynt Glas** – Nodwyd bod digwyddiad ymgynghori pellach wedi'i drefnu ar gyfer 17^{eg} Tachwedd 2026 yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.
10. **Ciosg Ffôn BT – Croesyceiliog** – Nodwyd bod gwaith wedi dechrau ar atgyweiriadau i'r ciosg.
11. **Un Llais Cymru** – Cais i ystyried Cynigion yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol Un Llais Cymru. Nodwyd hyn.

6. Gohebiaeth

1. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** – Bwletin y CHT. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o Gau Ffordd Dros Dro ar yr U2203 Heol Nantyglassdwr, Cwmffrwd, Caerfyrddin ddydd Iau, 22^{ain} Hydref 2026, am gyfnod o bum niwrnod gwaith. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am Ddigwyddiad Cymunedau Cydnerth Sir Gaerfyrddin a gynhelir ar 7^{fed} Hydref 2026. Nodwyd.
4. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am gyfarfod Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin a gynhelir ar 5^{ed} Hydref 2026. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
6. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** - Canllaw i Adolygiad 2030 o etholaethau'r Senedd. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** - Nodyn Datblygu Arfer Diwygiedig - Cyfraith Martyn. Nodwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
9. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** – Ymgynghoriad ar Adroddiad Blyneddol Drafft 2027-28. Nodwyd.
10. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.

7. Cyfethol Aelod i'r Cyngor Cymuned

Nodwyd bod yr enwebiadau blaenorol ar gyfer cyfethol wedi gwrthod y cyfle i ymuno â'r Cyngor Cymuned. Felly rhoddodd aelodau ystyriaeth bellach i gyfethol aelod i'r Cyngor Cymuned. Ystyriwyd yr enwebiadau a bydd y Clerc yn cysylltu i drafod y mater.

8. Atgyweiriwr Cymunedol

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Medi gyda chyfanswm cost o £672.00 yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Medi gyda chost o £336.00.

9. Digwyddiadau Gymunedol 2026

1. Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol – Nododd y Cadeirydd lwyddiant y digwyddiad gyda 14 o geisiadau ar y diwrnod. Y gwobrau oedd:
 - 1af Llansaint WI
 - 2il Sefydliad John Burns
 - 3ydd Eglwys Santes Ann
 Cymeradwywyd yr anfoneb o £75.00 ar gyfer y gwobrau i Sioe Llandyfaelog.

2. **Sul Y Cofio** – Nododd y Clerc y byddai Gwasanaeth Sul y Cofio yn cael ei gynnal ar 8^{fed} Tachwedd o 2pm yn Eglwys Llandyfaelog, ac yna Gwasanaeth yn Nhir Gof. Nodwyd.

10. Adroddiad Cyllid 2026-27

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 2il chwarter ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2026-27. Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniodd yr adroddiad. Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad o gofnodion ariannol y Cyngor.

11. Cynllunio

1. **PL/11318** - Amrywiad o Amod 2 ar PL/10673 (Diwygiad i gynlluniau cymeradwy) - Nant Yr Haul, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LX. Dim gwrthwynebiadau.
2. **PL/11323** - Gwaith strwythurol brys gan gynnwys dymchwel talcen deheuol peryglus (ôl-weithredol) ac ailadeiladu'r talcen, y gornel dde-ddwyreiniol a mannau diffygiol llai mewn gwaith maen wedi'i achub/cyfatebol a osodwyd mewn mortar calch. Dybio gwaith maen brau mewn mortar calch (pob gwaith brys - cyn hysbysiad o dan Adran 117 o Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023). Ail-rendro mewn calch gyda gorffeniad llaw mân, llyfn, gan donnu'n ysgafn i ddilyn cyfuchliniau'r gwaith maen. Lliw paent i gyd-fynd â Uplands Mansion (ocr melyn). Creu porth allanol o fewn wal yr ardd sy'n ffinio â'r bwthyn - Bwthyn Honeysuckle, Uplands Mansion, Uplands, Caerfyrddin, SA32 8DZ. Dim gwrthwynebiadau.
3. **PL/11432** - Codi adeilad amaethyddol i orchuddio'r iard wartheg bresennol a gwaith cysylltiedig - Llwynygcw, Uplands, Caerfyrddin, SA32 8DX. Dim gwrthwynebiadau.

12. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

1. Nododd y Cynghorwyr Shan Rees a Meinir James eu diddordeb a gadawsant y cyfarfod ar gyfer yr eitem
Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog – Cytunwyd rhodd o £100.
2. **Angor** - Cytunwyd rhodd o £100.
3. Nododd y Cynghorwyr Philip Davies a Janet Knott eu diddordeb a gadawsant y cyfarfod ar gyfer yr eitem
Pwyllgor Neuadd Gymunedol Llandyfaelog (Grant Blynyddol a Goeden Nadolig) – Cytunwyd cyfraniad o £775.00.

13. Cyfrifon

Cymeradwywyd y Taliadau canlynol:

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Medi ac Ad-Daliad Dyfarniad Cyflog	£823.90 £113.85 £26.00	£14.30 £7.28	£985.33	£375.20	£78.11	£610.13

2. **CTEM**

£1,251.67

Gorffennaf - Medi

3. **Michael Leefe**

£336.00

Torri Gwair Medi (gweler eitem 9)

4. Michael Leefe	£672.00	Atgyweiriwr Medi (gweler eitem 9)
5. Un Llais Cymru	£210.00	Adolygiad Cyflog y Clerc
6. Audit Wales	£810.37	Siars Archwiliad 2024-25
7. Pwyllgor Sioe Llandyfaelog	£75.00	Cystadeuaeth Ymdrech Gymunedol (gweler eitem 10.1)
8. Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog	£100.00	Rhodd (gweler eitem 12.1)
9. Angor	£100.00	Rhodd (gweler eitem 12.2)
10. Neuadd Gymunedol Llandyfaelog	£775.00	Grant Blynnyddol gweler eitem 12.3

14. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nododd y Clerc y materion canlynol a adroddwyd i'r Cyngor Sir:
 - a. Methu casglu sbwriel wrth y bin sbwriel ym Mancycapel.
 - b. Colli arwydd 30mya rhwng Maecyneiddion a Garthowen.
2. Bydd y Clerc yn adrodd am yr angen i chwistrellu mwsogl ar y llwybr o Landyfaelog i'r A484.
3. Nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau wedi'u gwneud am y gwasanaeth Meddyg Teulu ym Meddygfa Sarn.

15. Nododd y Cynghorydd Philip Davies a'r Clerc eu diddordeb yn y mater hwn a gadawsant y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y mater. Cais Cynllunio CAS-03952-H9R8G4 - Parc Solar Heolddu, Maesmawr a Fferm Treforris Fawr, Glanyfferi, Sir Gaerfyrddin, SA17 5YD.

Nodwyd bod yr ohebiaeth diweddaraf a dderbyniwyd oddi wrth PEDW ynglŷn â'r cais cynllunio yma wedi'i rannu i Gynghorwyr drwy ebost.

Yn dilyn trafodaeth, penderfwyd nad oedd angen cyflwyno unrhyw ymateb pellach gan y Cyngor yn ychwanegol i'r datganiad gwreiddiol gan fod hwnnw'n fanwl a sylweddol.

Cytunwyd bod y Cadeirydd yn cysylltu gyda PEDW i gael eglurder am y trefniadau ar gyfer y sesiynau ymchwilio fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 5^{ed} Tachwedd 2026.